# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 24 Chwefror 2021 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 25 Chwefror 2021 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 4 Mawrth 2021 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai

**PWNC:** Prynu 35 Ffordd y Coleg, Bangor er mwyn diwallu anghenion digartrefedd

**PENDERFYNIAD –** I brynu 35 Ffordd y Coleg Bangor er mwyn cyfarch gofynion diagartrefedd yn y ddinas, a hyny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Yr Aelod Lleol

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Lowri Cadwaladr Roberts<br>Rheolwr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 24.02.2021 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc : Prynu 35 Ffordd y Coleg, Bangor er mwyn diwallu anghenion digartrefedd**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I brynu 35 Ffordd y Coleg Bangor er mwyn cyfarch gofynion diagartrefedd yn y ddinas, a hyny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae'r Adran Tai ac Eiddo wedi adnabod yr angen i gaffael unedau preswyl er mwyn diwallu anghenion Digartrefedd ofewn y sir, gydag angen penodol wedi ei adnabod ym Mangor.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Adnabyddwyd 35 Ffordd y Coleg fel eiddo addas i'w addasu ar gyfer darparu pedwar uned preswyl, ac mae'r Cyngor yn cyd-weithio gyda Cymdeithas Dai Gogledd Cymru er mwyn darparu pedwar uned byw ynogystal a chefnogaeth i'r preswylwyr.

Gwnaed cais am arian grant o gronfa Gwedd 2 Digartrefedd y Llywodraeth ar gyfer y cynllun yma, a bu'r cais hwnw yn llwyddiannus. Bydd arian grant felly yn ariannu yr holl gostau sy'n gysylltiedig a phryniant yr eiddo, yn ogystal a'r costau o addasu'r eiddo, sydd eisoes wedi ei rannu yn bedwar fflat anibynol.

Nid oes unrhyw fwriad i dalu mwy na gwerth y farchnad am yr eiddo.

Mae gofyn i Aelod Cabinet Tai ac Eiddo gymeradwyo’r pryniant yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor dyddiedid Mai 2015.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid** – Gallaf gadarnhau bod yr arian yn ei le ar gyfer pryniant 35 Ffordd y Coleg, Bangor fel un o’r cynlluniau sy’n cael eu hariannu gan Grant Digartrefedd Rhan 2 Llywodraeth Cymru. Nid oes gennyf wrthwynebiad i’r pryniant o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Swyddog Monitro** – Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Aelod/au Lleol:**

**Y Cynghorydd Mair Rowlands -** Rwyf yn gefnogol o'r cynllun fydd yn diwallu anghenion o ran digaretrefedd ym Mangor. Mae'n holl bwysig bod yna gefnogaeth a rheolaeth i gael fel rhan o'r ddarpariaeth, a gan fod niferoedd yr unedau yn weddol isel, ac y bydd na reolaeth a chefnogaeth yn rhan o'r cynllun, dwi ddim yn rhagweld y bydd yn cael effaith negyddol ar fwynderau'r ardal.

**Y Cynghorydd Catrin Wager -** Rwyf yn gefnogol i’r egwyddor, cyn belled fod y trefniadau rheoli/asessu risg ac yn y blaen yn ddigon cadarn.